Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl202

**Amseru:**

**Teitl: Arian ar gyfer pecynnau Profi ar gyfer Gyrru a Chymryd Cyffuriau**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r Adran Plismona'r Ffyrdd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y troseddau gyrru a chymryd cyffuriau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn o ganlyniad i fesurau 'stopio a gwirio' rhagweithiol gan swyddogion. Mae'r datrysiad cychwynnol ar ochr y ffordd gan ddefnyddio prawf cyffuriau. Os yw'r prawf yn gadarnhaol, byddai angen sampl gwaed tocsicoleg, a fyddai'n digwydd yn y ddalfa. Mae'r camau cadarnhaol hyn wedi cael effaith ariannol sylweddol ar gost profion cyffuriau a phrofion tocsicoleg dilynol. Gwnaeth yr Heddlu gais i'r CHTh gyfrannu at gost prynu pecynnau profi ar gyfer gyrru a chymryd cyffuriau. Mae CHTh wedi cytuno i gyfrannu £40,000 o gyllideb Cronfa Wrth Gefn y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau.

**Argymhelliad:**
**Cyfrannu £40,000 tuag at brynu pecynnau profi ar gyfer gyrru a chymryd cyffuriau.**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**



**Dyddiad:12.02.21**